# MARWNAD

WSa 35. 5. 59

AM Y DIWEDDAR

## BARCH. DANIEL GRIFFITHS,

### CASTELLNEDD;

YR HWN A FU FARW AR Y DYDD CYNTAF O EBRILL, 1846,
YN WYTH MLWYDD A DEUGAIN OED.

---

Tywyll niwl ddaeth ar Gastellnedd,—a nos,
Pan o nyth anrhydedd
Syrthiai hwn i'r swrth annedd
O lawr byd, a elwir *bedd!*

A daeth ar Soar yn syn—anghenion,
Yn nghanol ei dyffryn.
Chwarae mae y chwaer am hyn,
Hiraeth hwyl ar ei thelyn.

---

CYFANSODDWYD AR DDYMUNIAD AMRYW O'I GYFEILLION,

GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

---

RHYDYBONT:

CYHOEDDWYD AC ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

1846.

X205309142

## CYNNWYSIAD.

Bardd yn canfod holl awyrgylch Morganwg, heb gymmaint â chwmwl—pob peth yn cydfwynhau ei Wanwyn:—cwmwl bychan yn ymgodi—yn disgyn ar Gastellnedd—yn gorchuddio ac yn aros ar Soar—pawb yno yn drist a phen-isel—yr holl dy-mewn galar-wisg; yna yn clywed y pwlpud a'r corau yn cwyno, yn gweled yr addoldy yn cael ei lenwi o ddynion—yn clywed hen ddiacon yn tywallt allan ei gwyn ddes-grifiadol am y gwr a gollasid o'u mysg—y Bardd ar hyn yn deall pwy oedd testun yr hiraeth-gwyn a'r galar—yn canfod yr holl addolwyr o'r un deimlad â'r diacon a'u hanerchai. Oddiyma ceir golygfa hanesyddol ar y gwrthrych, o'i wyth mlwydd oed, gyda'i fam weddw a duwiol, drwy ei droedigaeth yn ei un-ar-bymtheg—ei alwad i'r pwlpud yn ei ddeunaw oed—a'i ymweliad ag ysgol y Neuaddlwyd yn fuan gwed'yn. Yna teflir trem gyffredinol ar y gwrthrych yn ei wahanol gym-meriadau—fel tad, priod, gweinidog, a phregethwr—yn ei dy, ei eglwys, a'i bwl-pud, hyd wasgfa ei hirfaith afiechyd a'i ymadawiad. Oddiyno eir yn mlaen at angladd anrhydeddus, ei fedd, ei deulu, ei gyfeillion gweinidogaethol, ei ddy-lanwad grymus ac eang, a'i esiampl. Gorphenir gyda chyflwyniad o'i deulu a'i eglwysi i ofal ei Dduw. Yr olygfa ddiweddaf a genfydd y Bardd yw y cwmwl du a orchuddiasai Soar, Castellnedd, yn cael ei chwalu gan awelon grâs y nef, a'r haul yn tywynu arni fel o'r blaen.

# MARWNAD.

Un boreu-ddydd teg yn Ebrill,
  Tynu'r oeddwn tua'r lân;—
Gweled awyr-gylch Morganwg
  Heb ei chwmwl yn un man;
Adar mân y fro yn canu;
  Haul yn t'wynu ar y dail;
Bugail ar y fron yn gorwedd;
  Praidd yn pori gylch y gail.

Gweled pawb, a gweled pob-peth,
  Gwedi gwisgo llawen wedd,
Oddieithr cwmwl bychan
  Safai fry uwch Castellnedd;
Unwaith dringodd tua'r dyffryn,
  Eilwaith tua'r dref y daeth;
Yna, yn y diwedd disgyn,
  A gorchuddio Soar wnaeth.

Yna gwaeddais gyda syndod—
  Syndod bron a syndod gwedd,
Fod trychineb wedi dala—
  Dala Soar, Castellnedd.
Tua'r dref ar frys disgynais—
  Holi hwn a holi'r llall,
"Beth yw'r cwmwl ddaeth can ddued?
  Beth yw'r golled? beth yw'r gwall?"

Yna gam a cham ymdynais
  Drwy heolydd Castellnedd;
Cwrdd â hwn yn drom ei fynwes,
  Cwrdd â'r llall yn drist ei wedd.
Ië, cwrdd pob gradd ac oedran—
  Cwrdd pob Enwad feddai'r Ffydd,—
Pawb â'i hiraeth yn ei fynwes,
  Pawb â'i ddeigryn ar ei rudd.

Yna 'mlaen i'r hardd addoldy;
  Hwnw'n hynod ar y fu—
Gwel'd y *gallery* a'r pwlpud—
  Gweled pob-peth yn ei ddu!
Gwel'd y Bibl mawr mewn *mourning*,
  Bord y cymun yr un bryd;
Goleuadau'r *gas* yn bruddaidd,
  A'u colofnau'n ddu i gyd!

Yna dan fy syndod sefais,
  Pan heb un i gwrdd â'm cais;
Rhoes y pwlpud im' anerchiad,
  Mewn rhyw dor-calonus lais:—
"Pa beth allaf ond galaru,
  Dan fy nghholled, dan fy nghlwy'?
Collais wr oedd yn fy llenwi:
  Nid yw'n dringo mo'nof mwy!"

Yna tybiwn fod y corau,
  A'r parwydydd yr un pryd,
Yn cyd-ollwng rhyw ochenaid,
  Fath na chlywais yn y byd.
Pe bai gan ochenaid eiriau—
  Pe bai iaith o fewn ei chwyth,
"Colled" oedd i hon yn ystyr—
  "Colled anadferol byth!"

Nid oes drymder mewn addoliad,
  Nid oes drymder yn ei thy;
Canu ddylai teulu crefydd
  Am y drefn i'w cadw sy:
Etto, dengys SOAR dristwch,
  Dengys SOAR lygaid llaith,
Dengys yn y tristwch hiraeth—
  Hiraeth, nid diachos chwaith.

Sefais enyd heb un cwmni,
  Ond y *mourning* dwys a du;
Pan ddeffröais o'm syfrdandod,
  Gwelwn dorf yn llenwi'r ty.
Nid oedd un â llygad gwamal,
  Nid oedd un ag ysgafn dôn;
Dim ond tremio tua'r pwlpud,
  Colli deigryn—tewi sôn!

Yna cododd hen ddiacon;
   Cadair wag oedd ar ei bwys:
Tremodd arni, taflodd ddeigryn,
   Yna cydiodd ynddi'n ddwys,
Ac ag araf lais toredig—
   Gair yn awr ac yn y man,
Weithiau'n brudd ei wedd i'r ddaear,
   Weithiau'n brudd ei wedd i'r lan,—

Gwaeddodd, "O fy hoff weinidog!
   O fy ffyddlon gyfaill cu!
O fy ffyddiog gyd-bererin,
   Flwyddi tua'r nefoedd fry!
Gallaf dremio tua'th bwlpud,
   Etto ofer fydd fy nghais;
Gallaf wrando'n hir a dyfal—
   Gwrando'n ofer am dy lais.

"Hiraeth am dy ymadroddion
   Sydd yn llenwi'm dwyfron i;
Hiraeth am dy ddwys gynghorion,
   A'th rybyddion ffyddlon di;
Hiraeth am dy wahoddiadau,
   Am dy floedd, ac am dy gwyn,
Am y peraidd udgorn arian,
   Am y durtur hyfryd fwyn.

"Croeso da i'th anwyl frodyr
   Oll, oedd gan ein pwlpud ni;
Ond nid tebyg croeso un-gwr,
   I'th roesawiad cyflawn di.
Gwenol gwehydd yn dy ddwylaw
   Oedd pob calon, oedd pob bryd;
Tannau telyn dan dy fysedd,
   Oedd teimladau'r dorf i gyd.

"Ganwaith daeth yr isel galon,
   Gan ymdreiglo yn ei gwaed;
Gyda sain dy aceniadau,
   Buan neidiai ar ei thraed.
Anghrediniaeth yn ei gastell,
   Safai ger dy fron yn fawr;
Etto gan dy Ddüw a thithau,
   Buan cwympai'r ddau i lawr.

"Enwog am eu broch daranau,
  Enwog am eu mellt a'u tân,
Ydoedd hwn a'r llall o'th frodyr;—
  Enwog tithau am dy gân:
Hwy, fel grymus feibion Sina,
  Ddrylllient greigiau drwy eu hoes;
Tithau'n frwd o fro Calfaria,
  Doddit ia â rhin y groes.

"Ar y maes y gwelir Moses,
  Gwelir Daniel, gwelir Job,
Gwelir Paul, a gwelir Pedr,
  Gyda myrdd o gylch y glob:
Nid o ddawn y rhai'n cyfranwyd
  Dy gynnysgaeth, na dy fri;
Tannau Dafydd, llais Ezekiel,
  Swynion Ioan, roed i *ti*."

Tra gollyngai'r prudd ddiacon
  Allan ffrwd y cwynion hyn,
Weithiau gwenai dan ei ddagrau,
  Weithiau safai'n drist a syn.
Nid aeth sill dros fin ei enau,
  Deigryn dros ei rudd i ffwrdd,
Heb eu cymhar yn mhob dwyfron,
  Yn mhob llygad fewn y cwrdd.

Gwedi gwrando pawb a phob peth,
  Nid oedd eisieu holi mwy;
Eglur ddigon oedd y testun
  O'r holl alar a'r holl glwy'.
Nid yn addas i'r cymmeriad,
  Neb o hoff genadon hedd—
Neb, yn wir, ond DANIEL GRIFFITHS—
  DANIEL GRIFFITHS, *Castellnedd*!

Ysgol Sul, a'r ysgol ganu,
  Amlwg yw, gollasant ffrynd;
Dwed eu dagrau, fod eu hanwyl
  DDANIEL GRIFFITHS wedi myn'd:
Cafodd llawer cant eu *mourning*,
  *Mourning* gwisg a *mourning* gwedd
*Mourning* bron ac enaid gafodd
  DANIEL GRIFFITHS, Castellnedd.

Canwaith soniodd, gyda dagrau,
  Am weddiau dwys ei fam,
Am ei gofal a'i hymdrechion,
  Rhag i'w enaid bach gael cam.
Canwaith difyr gofia'i geiriau,
  Ar ei gliniau wrth ei Duw—
"Cofia DANIEL hoff, yr ie'ngaf—
  Bachgen bach amddifad yw!"

Gwedi colli'r fam anwylaf,
  Ië'r fam, yn wyth mlwydd oed,
Cafodd Dduw yn dad gofalus,
  Ac yn ffrynd anwyla' 'rioed.
Daliodd pethau'r fam i'r fynwes,
  Fel y gwreichion poeth o dân,
Etto cyndyn teithiodd DANIEL
  Un-ar-bymtheg mlwydd yn mlaen.

Tua gwar y flwyddyn hòno,
  Cofiodd Duw weddïau'r fam,
Chwythodd awel grâs yn rymus,
  Nes ai'r gwreichion oll yn fflam:
Cwympodd DANIEL ar ei ddwylin—
  Dagrau'r galon oedd yn lli,
Yna'r Meddyg mawr gymhwysodd
  Ato falm o Galfari.

Er ei fod yn isel, isel,
  Ac yn teimlo 'i hun yn wael,
At ei orchwyl rhaid ymddïosg,
  Nid oedd lonydd iddo gael:
Gyda dwy-flwydd fach o broffes,
  Troes yn genad dros y Nef,
Ac argoelion o'i enwogrwydd
  Roes ei bregeth gyntaf ef.

Gwedi blwyddyn o bregethu,
  Tua'r Neuaddlwyd y daeth—
Daeth fel comet o'r canolbwynt,
  Daeth o fwa Nef fel saeth:
Synai cannoedd wrth ei eiriau,
  Cwympai degau wrth ei draed,
Ac adfywiad digyffelyb
  Drwyddo i Geredigion gaed.

Codi llawer achos newydd,
  Tynu'r hen gapelau i lawr,—
Cynhwrf coed, a chynhwrf ceryg—
  Gwneyd y capel bach yn fawr;
Gwerthu'r *grammar* am y bregeth,
  Tynu athraw da i nwyd;—
Dyna rai o wyrthiau DANIEL
  GRIFFITHS yn y NEUADDLWYD.

Cofia myrdd am DANIEL GRIFFITHS,
  Drwy y Gogledd, drwy y De:
Cofiant hyfryd flas ei bregeth—
  Fel y mêl o ddiliau'r ne;
Cofia'r defaid am eu bugail,
  Cofia SOAR, hi fu'r gail;
Cofi dithau, eang Gymru,
  Cofi'n hir cyn gwel'd ei ail.

Ffyddlon ar ei farch y teithiodd,
  Drwy bob tywydd, dan bob croes;
Gan ddïogi, gan segurdod,
  Llonydd fynodd drwy ei oes;
Pump mewn diwrnod o bregethau,
  Ac nid yn yr un-man 'chwaith—
Dwy-ar-bymtheg yn yr wythnos;—
  Dyna'n aml oedd ei waith.

Cyrchu'r plant i gyd o'r ysgol—
  Dyna'r deg—a thyna'r fam;
Tad yn eistedd yn y gwely,
  Gyda serchog wên ddinam.
Dwys y ffarwel a'r cofleidio,—
  Dwysaf gawsent ar y llawr;
Ffarwel tad â'i deulu ydoedd,
  Hyd yr adgyfodiad mawr.

Yna ffarwel hen afiechyd,
  Ffarwel anwyd—ffarwel byth,
Ffarwel boen, a ffarwel beswch,
  Ffarwel chwant, a ffarwel chwyth;
Ffarwel SOAR, ffarwel SCIWAN,
  FELIN CWRT, a CHASTELLNEDD;
Ffarwel eglwys gwlad y rhyfel,
  Henffych eglwys gwlad yr hedd.

Chwe mil mawr o drist alarwyr
  Tua'r beddrod fu'n ei ddwyn;
Gwn fod chwe-deg hyny eilwaith,
  Am ei golli, 'n fawr eu cwyn.

Nid yn aml gwelodd Cymru—
  'Rioed ni welodd CASTELLNEDD,
Dristwch mewn cynnifer mynwes,
  Ddagrau ar gynnifer gwedd.

Gwedi canfod pawb yn mhob-man,
  Fel yn drist ac isel wedd,
Myn'd o gam i gam a wnaethum,
  Nes i'm gyrhaedd cwr ei fedd.
Gwelais rai mewn dystaw alar
  Gylch ei newydd fedd yn syn—
Mam a deg o blant amddifaid,
  Oedd y dwys alarwyr hyn.

Trwsient lèni gwyrdd y gwely—
  Gwely oer eu hanwyl dad,
Tra disgynai ar ei erchwyn
  Ddagrau fyrdd yn ddinacâd.
Planu blodau teg, ac wylo—
  Wylo eilwaith, oedd eu gwa ith
Yntau'n cysgu'n dawel obry,
  Heb eu gwel'd na'u clywed 'chwaith.

Yna troisant, yn hiraethus,
  Ar y llannerch oer eu cefn;
Cyrhaedd adref—nid oedd yno
  Ond yr aelwyd wag drachefn:
Gwag yw'r llyfrgell, lle bu filwaith;
  Gwag yw'r gwely, lle bu fyrdd;
Gwag yw'r ardd, a gwag yw'r meusydd,
  Gwag yw'r llwybrau, gwag yw'r ffyrdd.

Cân yr eos a'r fwyalchen,
  Dring uchedydd tua'r nen,
Cân aderyn du y boreu,
  Cân y gog ar frig y pren;
Cwyd yr hen, a chwyd yr ieuainc,
  Ac yn SOAR cânant hwy;
Yntau'n ddystaw, dystaw obry,
  Wedi darfod canu mwy.

Nage, nid ychwaith yn darfod—
  Darfod canu "IDDO EF"—
Wedi darfod canu daear,
  Dechreu mae caniadau nef.
Ar ba destun cân y seraph,
  Heinyf fry ei gerdd ddifai?
Ai am ddawn ac am arddeliad?
  Ai am Iawn i buro bai?

Nid yw'n gofyn fawr ddychymmyg,
  Dim ond ffydd yn graff ei threm,
Nes dy ganfod fry yn rhodio
  Heol fawr Jerusalem;
Wedi dechreu dy baradwys,
  Gyda Phedr fawr a Phaul,
Wedi taflu poen a gofid,
  Pech a pheswch byth o'th ôl.

P'le mae blaenffrwyth teg y teulu,
  Aeth o'r anial—aeth drwy'r dwr
Ond, paham y ffol ofynaf?
  Gyda'i dad, mae'n ddigon siwr.
Beth all fod eu hymddyddanion,
  Ddechreu'r baradwysaidd oes?
Beth, ond sôn am daith yr anial,
  Sôn am râs a gwaed y groes?

Aelwyd lom yw'r aelwyd hono,
  Gollodd gyfryw dad â hwn;
Arni ddeg o blant amddifaid,—
  Mawr y gofal, mawr y pwn.
Gweled deg o blant yn wylo,
  Dan eu colled, dan eu clwy,
Mam yn wylo yn eu canol,
  Dòrai galon craig yn ddwy.

Duw, y weddw byth nis gwrthyd,
  Un amddifad byth ni âd;
Lleinw gongl weddw'r aelwyd,
  Lleinw gadair weddw'r tad.
Griffiths aeth mewn hwyl i fyny;
  Gwel ei blant o un i un,
Ar hyd ysgol grâs yn dringo,
  Fel y dringodd ef ei hun.

Teithio tua'r hen gymmanfa,
  Gwelir gwych, a gwelir gwael;
Holi, "P'le mae Daniel Griffiths?"
  Daniel Griffiths ddim i'w gael!
Gwelir llawer *stage* cymmanfa,
  O Gaergybi hyd Gaerdydd,
Ond ar un o'r *stages* hyny,
  Daniel Griffiths mwy ni bydd!

Anghredadyn conglau Sciwan,
  Felin Cwrt, a Soar fawr,
Geiriau, dagrau Daniel Griffiths,
  Gofi'n hir, nad beth wyt 'nawr.

Ynot *ti* mae rhyw 'styfnigrwydd,
  Trech nâ dawn, a threch nâ bri;
O galonau celyd Cymru,
  Caled iawn yw'th galon *di!*

Beth all fod teimladau mynwes,
  Mynwes *un* o fro'r Alltwen?
A yw colli câr a chyfaill,
  Yn ei wneyd yn isel ben?
Brodyr fuant yn y llafur,
  Yn y llwyddiant, yn y pair;
Brodyr etto ryw ddiwrnod,
  Fry yn llys y delyn aur.

Wele'r cyntaf o'r efeilliaid
  Wedi gado'n llwyr y gail;
Ofni mae preswylwyr Seion,
  Bob argoelion colli'r ail.
Arglwydd, cyfod in' eu tebyg,
  Lawer pâr o fechgyn gwiw—
Penaf amcan, achub enaid—
  Penaf nod, gogoniant Duw.

Tithau, Morgans fwyn o'r Llwyni,
  Fuost gyfaill iddynt hwy;
Cyfaill boreu, cyfaill bywyd,
  Cyfaill mynwes iach ddiglwy'.
Hir yn *dri* o filwyr buoch,
  O'r un gredo, o'r un chwaeth;
Leinw neb, mi wn, ond Iesu,
  Eang le yr hwn a aeth.

Beth pe cawsai DANIEL goleg—
  Coleg Groeg a Lladin llwyr?
*Euclid, physics, mathematics*—
  Faint dyfasai? pwy a wyr?
Gwir, gallasai, gyda'i dybiau,
  *Yna* feiddio eonach naid;
Ond, a fuasai'r gwlith ogymmaint,
  A'r gwresogrwydd? ammheu raid.

Pwy a wisga mwy ei fantell?
  Pwy a'i gall? a phwy a'i myn?
Awn at rydiau'r hen Iorddonen,
  'Fallai 'i bod yr ochr hyn.
Ofer chwilio, nid oes mo'ni,
  Cheir er holi, ond y wad.
Seion! Seion! 'mofyn ddoniau
  DANIEL GRIFFITHS, gan dy Dad.

Claddu'r y'm enwogion Cymru,
  Claddu'r delyn, colli'r dôn;
O fel cuddia bedd y doniau!
  Neb yn sylwi, neb yn sôn.
O am ryw Elias etto!
  Williams—Christmas; O am un!
Davies, Swansea—DANIEL GRIFFITHS!
  Yn eu lle 'does ond eu llun!

Nid traddodi araeth fedrus,
  A gofalus dros y fin,
Gyda theimlad oer boneddig,
  Wedda i waed y groes na'i rîn.
Nid rhyw siarad sych diafael,
  Hanner effro, hanner hun,
Dâl uwch pwnc o golli enaid—
  Dâl uwch pwnc o gadw dyn.

Gormod a lafuriodd DANIEL,
  Gormod chwys a llafur roes;
Gwisgodd drugain mlwydd o'i babell,
  Yn ei wyth a deugain oes.
O! mi gwela'n dechreu synu—
  O! mi clywa'n bloeddio, "Na!
O! na allaswn weithio 'chwaneg
  Dros fy Nuw a'm Harglwydd da!"

Gwelaf, neu tebygaf weled,
  Gweledigaeth Ffydd yn mlaen;
Gwelaf SOAR drom yn aros
  Dan ei chwmwl, fel o'r blaen;
Nes y chwalai grasol awel
  Yr holl gwmwl ar ei hynt—
Nes y daeth, ac nes arosodd,
  Haul ar SOAR megys cynt.

---

Cymru, uwch bedd, ni fedd, ni fyn——na Gwent,
    Wych ei dalent, â mwynach delyn.
    Gwr hoff oedd DANIEL GRUFFYDD,
    O ddawn, yn mhwlpud ei ddydd;
    Gwr hoffach, gwn, yw GRUFFYDD,
    Yn wr iach, mewn awyr rydd.
    Gwych ei fraint, a gwych ei fro,
    A'i wleddoedd—FFARWEL IDDO.

J. JONES, ARGRAFFYDD, RHYDYBONT.